**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (22)**

**Dydd Mercher, 16 Hydref 2002**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Cynnig Trefniadol**
***Bydd y Trefnydd yn cynnig cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y cynnig heb ddyddiad trafod NNDM1174 a restrir o dan eitem 5 ar yr agenda.***
***Os yw'r cynnig trefniadol yn llwyddiannus, bydd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn cynnig bod eitemau 4 a 5 yn cael eu trafod gyda'i gilydd.***

**Eitem 4**
**Dadl ar y Mesur Addysg**
**NDM1172 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn croesawu Deddf Addysg 2002 a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Gorffennaf 2002;

2. Yn croesawu'r ffaith fod y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n ymwneud â Chymru yn alluogol o ran eu natur a bod gan y Cynulliad bwerau diamod i sicrhau i ba raddau y cânt eu cymhwyso yng Nghymru;

3. Yn croesawu'r adrannau penodol yn y Ddeddf a fydd yn cymryd y camau cyntaf o ran deddfwriaeth sylfaenol tuag at gyflawni ein hagenda ein hunain yn 'Y Wlad sy'n Dysgu', ein rhaglen gynhwysfawr ar gyfer addysg a dysgu gydol oes hyd at 2010 yng Nghymru;

4. Yn cytuno bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud y gwaith angenrheidiol er mwyn mynd ati i ddechrau cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r Ddeddf o fis Rhagfyr

2002.

*Gellir dod o hyd i Ddeddf Addysg 2002 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn:*
http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020032.htm

*"Gellir dod o hyd i "Y Wlad sy'n Dysgu" ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn:*
http://www.wales.gov.uk/subieducationtraining/content/life/walesskillsreport-e.htm*)*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)+(2)+(4)+(6)
(3)+(5)+(7)

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt bwled 1 yn rhoi ‘nodi’ yn lle ‘croesawu’.

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn dileu pwynt 2 ac yn rhoi yn ei le:
Yn croesawu’r ddarpariaeth i alluogi’r Cynulliad i neilltuo cyllidebau ysgolion ac yn pwyso ar y Llywodraeth i roi mwy o sicrwydd i gyllidebu ysgolion.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:
' ,ond yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddadlau’r achos o blaid datganoli tâl ac amodau athrawon.

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn dileu pwynt 3 ac yn rhoi yn ei le:
Yn condemnio methiant y Llywodraeth i ganiatáu craffu priodol ar y Mesur cyn iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:
' ,ond yn nodi bod y system gyfun yn parhau i gael ei thanseilio gan yr egwyddorion hynny o gystadleuaeth sy’n rhan gynhenid o’r fformiwla bresennol ar gyfer cyllidebu ysgolion'

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Yn dileu pwynt 4 ac yn rhoi yn ei le:

Yn cydnabod y bydd y Ddeddf Addysg yn cynyddu pwerau Gweinidogion y Llywodraeth ar draul ysgolion a phrifathrawon.

**Gwelliant 7 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4:
'tra bo'n sicrhau craffu priodol gan y Pwyllgor Addysg'

**Eitem 5**
**Dirprwyo Swyddogaethau**
***NNDM1174 -*** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru,* gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad ei holl swyddogaethau fel y'u pennwyd yn Neddf Addysg 2002 neu odani, ac eithrio'r swyddogaethau hynny na ellir yn gyfreithlon eu dirprwyo.

Ni chaiff unrhyw beth yn y cynnig hwn effaith o ran lleihau awdurdod uwch y Cynulliad llawn nac o ran gwanhau swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

*Ceir copi o Ddeddf Addysg 2002 oddi ar y rhyngrwyd trwy glicio ar: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020032.htm*

**Eitem 6**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar TGCh yng Nghymru Wledig**
***NDM1173* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, sef "Adroddiad ar TGCh yng Nghymru Wledig", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2002.

Cliciwch yma i weld yr adroddiad.

**Eitem 7**
**Dadl Fer: *NDM1171* Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Rhoi Cleifion yn Gyntaf**

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 22 Hydref 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**